OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 233 (Cy.33)

LANDLORD A THENANT

Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Chwefror 2003*
Yn dod i rym - -	*28 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**), a phob pŵ er arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio

2.—(1) Mae Ffurflenni 1 a 2 yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) 1997(**2**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle nodiadau 2 a 3 ar ddiwedd pob ffurflen, rhowch—

"**Note 2:** Schedule 10 to the Local Government and Housing Act 1989 provides that a tenant of residential property under a long residential tenancy has a right, at the end of the original term of the tenancy, to continue as a tenant on the same terms as before unless the landlord ends the tenancy in accordance with the provisions of that Act. But see also Note 3.

Note 3: In certain circumstances, Schedule 10 does not apply and the landlord can end your tenancy by giving notice in accordance with the ordinary requirements of the law. These circumstances include cases where:

(a) you pay more than a low rent (see paragraph 2(4) and (5) of Schedule 10) unless the property is a house and the tenancy has been extended under section 14 of the Leasehold

(**1**) 1989 p.42. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 45(1) o Ddeddf Tai 1988 (p.50), sy'n effeithiol yn rhinwedd paragraff 2(2) yn Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Trosglwyddir Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas a Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1.

(**2**) .